**ATODIAD 3a**

| Swm £ | Pennawd Cyllideb a Chynigion | Effaith ar Drigolion |
|---|---|---|

**Plant a Chefnogi Teuluoedd**

| | | |
|---|---|---|
| £53,000 | Amrywiol - addasu cyfraddau chwyddiant. | Dim effaith ar drigolion. Mae'r Gwasanaeth yn ddiweddar wedi mynd drwy broses ail strwythuro dyletswyddau. Roedd swydd yn wag yn y gwasanaeth ac roedd modd ail ddyrannu'r gwaith ar draws y timau heb ardrawiad negyddol ar ddarparu gwasanaethau uniongyrchol. |
| £30,000 | Staffio - dileu swydd yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. | Dim effaith ar drigolion. Mae'r Gwasanaeth yn ddiweddar wedi mynd drwy broses ail strwythuro dyletswyddau. Roedd swydd yn wag yn y gwasanaeth ac roedd modd ail ddyrannu'r gwaith ar draws y timau heb ardrawiad negyddol ar ddarparu gwasanaethau uniongyrchol i bobl ifanc a'u teuluoedd. |
| **£83,000** | **Cyfanswm** | |

**Oedolion, Iechyd a Llesiant**

| | | |
|---|---|---|
| | Ildio Chwyddiant - | Byddai hyn yn rhoi elfen o bwysau ychwanegol ar ystod eang o gyllidebau ond oherwydd eu natur ni ddylai hynny gael effaith sylweddol ar drigolion. Gallai yr elfennau sydd a chostau staffio gael rhyw gymaint o effaith ar raglenni lle mae y 3ydd sector yn cefnogi gwaith yn y gymuned. |
| £43,850 | i. ildio chwyddiant (CPI tua 1.5%) ar gyllidebau amrywiol ond eithrio cyllidebau ar gyfer comisiynu gwasanaethau 3ydd Sector lle mae costau staffio. | |
| £7,550 | ii. ildio chwyddiant (CPI tua 1.5%) comisiynu 3ydd Sector lle mae costau staffio. | |
| £16,660 | iii. ildio chwyddiant contractau mudiadau 3ydd sector. | |

**ATODIAD 3a**

| Swm £ | Pennawd Cyllideb a Chynigion | Effaith ar Drigolion |
|---|---|---|
| £39,850 | Cyllidebau sydd yn tanwario'n flynyddol - mae nifer fechan o gyllidebau o fewn yr Adran yn tanwario o flwyddyn i flwyddyn. Yn hytrach na defnyddio yr arian i gynorthwyo gyda cyllidebau sydd yn gorwario yn flynyddol, cynigir bod y symiau yn cael eu cynaeafu fel arbediad. | Er na fyddai cynaeafu yr arian yn cael effaith ar y penawdau cyllideb dan sylw mae'n bosib y byddai'r gwasanaethau sydd yn cael eu cynorthwyo o flwyddyn i flwyddyn yn cael eu rhoi dan fwy o bwysau gyda risg uwch o orwariant o 2020/21 ymlaen. Byddai unrhyw effaith ar drigolion yn dibynnu ar lwyddiant i reoli galw a gwariant yn y cyllidebau hynny. |
| £49,360 | Cefnogaeth Busnes - ail strwythuro y Gwasanaeth Busnes gan leihau'r gefnogaeth a roir i'r timau adnoddau cymunedol integredig.<br><br>Addasu a lleihau ymhellach y gefnogaeth fusnes a roddir i dimau rheng flaen yr Adrannau Oedolion a Plant. | Mae'r timau yma eisoes wedi eu lleihau yn y cylch toriadau diwethaf. Rhagwelir y byddai y cynllun hwn yn arwain at ostyngiad sylweddol mewn perfformiad ar draws y Gwasanaeth Busnes o ran arbenigedd, llwyth gwaith ac arweiniad a sgil effaith hynny fyddai effaith negyddol ar allu'r Adrannau Oedolion a Plant i fod yn cyflawni eu pwrpas. Byddai hynny, ynghyd a'r angen i neilltuo cyfran o amser staff maes i ymgymryd â dyletswyddau gweinyddol yn cael effaith ar groes-doriad eang o unigolion a theuluoedd sy'n cael cefnogaeth. |
| **£157,270** | **Cyfanswm** | |

**Tai ac Eiddo**

| | | |
|---|---|---|
| £35,000 | Cynnal a Chadw Adeiladau - mewnoli'r gwaith statudol o archwilio systemau dŵr yn holl adeiladau'r Cyngor i amddiffyn defnyddwyr rhag Clefyd y Llengfilwyr. | Dim. Mae hwn yn arbediad effeithlonrwydd a fydd yn golygu y bydd y gwaith yn dal i gael ei gwblhau ond mewn ffordd ratach.<br>Mae contractwyr allanol arbenigol yn gwneud y gwaith ar hyn o bryd. Rydym wedi bod yn meithrin yr arbenigedd hwn yn fewnol yn ddiweddar ac, nawr, trwy benodi dau swyddog ychwanegol, gallwn wneud y gwaith hwn ein hunain am gôst is na thalu cwmni preifat i'w wneud ar ein rhan.<br>Bydd hyn hefyd yn golygu y gallwn warantu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg o hyn ymlaen - nid yw hyn bob amser yn wir wrth ddefnyddio contractwyr allanol. |

**ATODIAD 3a**

| Swm £ | Pennawd Cyllideb a Chynigion | Effaith ar Drigolion |
|---|---|---|
| £25,000 | Cynnal a Chadw Adeiladau - mewnoli gwaith cynnal a chadw trydanol yn adeiladau'r Cyngor. | Dim. Mae hwn yn arbediad effeithlonrwydd a fydd yn golygu y bydd y gwaith yn dal i gael ei gwblhau ond mewn ffordd ratach.<br>Yn draddodiadol, mae'r Cyngor wedi bod yn penodi contractwyr allanol i gwblhau ei holl waith cynnal a chadw adeiladau. Yn gyffredinol, mae hyn yn gweithio'n effeithiol ond mae problemau parhaus wrth geisio gwneud gwaith ar raddfa fach, sy'n werth ychydig gannoedd o bunnoedd ar y tro. Roedd yr amser arwain i mewn yn hir i gwsmeriaid a'r gôst yn uwch na'r hyn sy'n dderbyniol.<br>Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi penodi ein seiri a'n plymwyr ein hunain i wneud y math hwn o waith, ac mae hyn wedi caniatáu i ni leihau'r amser arwain i'n cwsmeriaid ac wedi caniatáu i ni sicrhau ein bod yn cael gwell gwerth am arian. Rydym wedi creu achos busnes sy'n dangos y gellid gwireddu arbedion pellach trwy gyflogi dau drydanwr ein hunain.<br>Bydd hyn hefyd yn golygu y gallwn warantu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg o hyn ymlaen - nid yw hyn bob amser yn wir wrth ddefnyddio contractwyr allanol. |
| **£60,000** | **Cyfanswm** | |

**ATODIAD 3a**

| Swm £ | Pennawd Cyllideb a Chynigion | Effaith ar Drigolion |
|---|---|---|

**Addysg ac Ysgolion**

**Ysgolion**

| | | |
|---|---|---|
| £31,620 | Lwfans y pen - peidio ychwanegu chwyddiant yn llawn | Lleihad cymharol fychan yn yr adnoddau addysgol fydd ar gael i ddisgyblion a thrwy hynny angen i'r ysgolion fod yn fwy effeithlon gyda defnydd o'u hadnoddau. |
| **£31,620** | **Is-gyfanswm** | |

**Adran Addysg**

| | | |
|---|---|---|
| £17,630 | Amrywiol - peidio ychwanegu chwyddiant yn llawn ar adnoddau nad ydynt yn staff. | Dim effaith ar drigolion ar y sail y bydd swyddogion yn ymdopi gyda'r arbediad trwy fod yn fwy effeithlon gyda defnydd o adnoddau. |
| £55,900 | Lleihad côst cytundeb blynyddol Cyd Bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) - mae'r lleihad yn y gôst eisoes wedi'i gyflawni trwy gyfuniad o ymdrechion ar y cyd rhwng CBAC, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru i ddarganfod arbedion effeithlonrwydd ariannol. | Dim effaith ar drigolion. |
| £46,500 | Lleihau'r gronfa datblygu - mae gan yr Adran Addysg gronfa ddatblygu (cymharol fechan) gwerth £89,710, cyn gweithredu'r arbediad yma. Mae'r gronfa yn galluogi'r Adran i fuddsoddi mewn blaenoriaethau un tro yn amserol ac sydd y tu allan i Gynllun y Cyngor.<br>Yn dilyn asesiad o gyllideb yr Adran Addysg ac ymarferiad blaenoriaethu, y consensws yw y gellid lleihau'r gronfa ddatblygu. Er hynny, pwysleisir nad fan hyn y byddwn yn troi ato os bydd angen darganfod arbedion pellach yn y dyfodol. | Lleihau gallu'r Adran Addysg i gyllido rhai blaenoriaethau y tu allan i Gynllun y Cyngor, allai arwain at effaith cymharol fychan ar drigolion. |
| **£120,030** | **Is-gyfanswm** | |
| **£151,650** | **Cyfanswm** | |

**ATODIAD 3a**

| Swm £ | Pennawd Cyllideb a Chynigion | Effaith ar Drigolion |
|---|---|---|

**Economi a Chymuned**

| | | |
|---|---|---|
| £17,530 | Peidio ychwanegu chwyddiant yn llawn neu yn rhannol ar benawdau gellir eu rheoli – penawdau cyflenwadau a gwasanaethau yn bennaf. | Arbedion ymylol ar benawdau y gellir eu rheoli – nid oes disgwyl i’r arbedion yma gael effaith ar drigolion Gwynedd. |
| £8,290 | Peidio ychwanegu chwyddiant yn llawn neu yn rhannol ar gyllidebau sydd yn cyfrannu at gronfeydd adnewyddu. Cronfeydd Morwrol ac Hamdden yn benodol. | Yn golygu lleihad yn y buddsoddiad i adnewyddu offer yn y dyfodol all effeithio maes o law ar ansawdd y gwasanaeth a’r targed incwm. |
| £1,920 | Peidio ychwanegu chwyddiant ar bennawd Grantiau Celfyddydau. | Yn golygu lleihad yn y grant y gellir ei ddosrannu i bartneriaid yn y dyfodol i hyrwyddo’r celfyddydau. |
| £12,820 | Diddymu cyllideb wrth gefn Gwasanaeth Hamdden. Wrth drosglwyddo rheolaeth gwasanaeth hamdden i Cwmni Byw’n Iach 1/4/19 sefydlwyd cyllideb ar gyfer gwariant annisgwyl sydd tu allan i reolaeth yr Adran. E.e. eleni mae gwaith cynnal a chadw brys yn Canolfan Glaslyn yn sgil pibell ddŵr yn gollwng wedi golygu cost uwch na’r disgwyl ar y gyllideb “prynu dŵr”. | Dim effaith uniongyrchol ar drigolion ond mae’r cynnig hwn yn golygu nad oes ffynhonnell gan yr Adran i ariannu materion annisgwyl heb reolaeth arnynt fydd yn arwain at orwariant. |
| £2,650 | Arbedion y Gwasanaeth Archifau – trwy ddefnyddio dulliau digidol i atgynhyrchu lluniau a hyrwyddo digwyddiadau. | Arbedion effeithlonrwydd felly dim effaith ar drigolion Gwynedd. |
| £7,200 | Arbedion trwy ddiddymu swydd Cydlynydd Digidol Gwasanaeth Llyfrgelloedd. Mae’r swydd yn wag ac yn sgil adolygiad Ffordd Gwynedd mae’r gwasanaeth wedi ailystyried ei flaenoriaethau ac yn cynnig diddymu rhan o’r swydd fel toriad heb effaith uniongyrchol ar y maes darpariaeth digidol. | Arbedion effeithlonrwydd felly dim effaith ar drigolion Gwynedd. |

**ATODIAD 3a**

| Swm £ | Pennawd Cyllideb a Chynigion | Effaith ar Drigolion |
|---|---|---|
| £4,000 | Arbedion yn Parc Padarn yn deillio trwy ail-strwythuro trefniadau staffio a wnaed yn dilyn targed arbedion effeithlonrwydd ac ymddeoliad cynnar Rheolwr y Parc nôl yn 2014/15. | Arbedion effeithlonrwydd felly dim effaith ar drigolion Gwynedd. |
| £500 | Arbedion Rheolaeth yr Adran – peidio prynu papurau newydd dyddiol. | Arbedion effeithlonrwydd felly dim effaith ar drigolion Gwynedd. |
| £2,000 | Arbedion prydles Stad y Goron yn y Gwasanaeth Morwrol. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i gytundeb "composite lease" gyda Stad y Goron ar gyfer arfordir Gwynedd. Mae trafodaethau wedi cychwyn i addasu prydles yr Hafan i fod yn seiliedig ar drosiant cyfredol yn hytrach na trosiant hanesyddol. Mae'r gytundeb presennol yn ymrwymo y Cyngor i wariant o £144,990 yn yr Hafan, Pwllheli. Mae'r gyllideb presennol yn £153,200 ond nid oes gwybodaeth eto am beth fydd yn ddyledus i'r dyfodol. Fodd bynnag rhagwelir fod digon o sgôp i roi £2,000 i fyny fel arbedion. | Arbedion effeithlonrwydd felly dim effaith ar drigolion Gwynedd. |
| £6,000 | Cwtogi gwariant ar nifer o benawdau tim cefnogi busnes gan gynnwys costau swyddfa, marchnata, rhwydweithio, tanysgrifiadau, ayb. | Bydd rhan o'r toriad yn arbediad effeithiolrwydd drwy newid strwythur a cyfuno unedau gwasanaeth, ond bydd elfen o'r toriad yn lleihau gallu'r Gwasanaeth i ymgysylltu gyda busnesau drwy leihau nifer ymgyrchoedd marchnata a rhwydweithio. |
| £3,000 | Cwtogi'r gwariant ar nifer o benawdau'r Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau yn bennaf cyllidebau penodol ar gyfer marchnata a digwyddiadau allanol. | Bydd lleihad yn y gefnogaeth sydd ar gael i fusnesau lleol gyda llai o ymgyrchoedd marchnata a sesiynau i ymgysylltu gyda'r sector dwristiaeth. |
| **£65,910** | **Cyfanswm** | |

| Swm £ | Pennawd Cyllideb a Chynigion | Effaith ar Drigolion |
|---|---|---|

**Cefnogaeth Gorfforaethol**

| | | |
|---|---|---|
| £16,140 | Peidio rhoi chwyddiant ar gyllidebau deunyddiau a chyflenwadau o fewn yr Adran. | Dim - o ystyried cynigion eraill i dorri ar gyllidebau deunyddiau a chyflenwadau, ni ystyrir peidio rhoi chwyddiant ar y cyllidebau hyn yn 2020/21 yn gam a fyddai'n effeithio ar allu'r Adran i gyflawni ei swyddogaeth. |
| £7,200 | Peidio adnewyddu trwydded Cyswllt Cwsmer. | Dim - yn bresennol, defnyddir meddalwedd NDL ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth o'r Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer yn uniongyrchol i system APAS o fewn y Gwasanaeth Cynllunio. Mae newidiadau yn y modd y gweithredir oddi ar y 1af o Ebrill 2020 yn golygu na fydd angen buddsoddi yn y drwydded hon i'r dyfodol. |
| £24,000 | Lleihau amryw gyllidebau canolog ac o fewn y Gwasanaeth Cefnogi Busnes a'r Gwasanaeth Cefnogol yn benodol. | Dim - ceir cyfuniad yma o arbedion bychain yn deillio o ail-strwythuro blaenorol o fewn yr Adran, gostyngiad mewn gwariant ar argraffu dogfennau corfforaethol e.e. Cynllun y Cyngor, Adroddiad Perfformiad, yn ogystal â lleihau gwariant ar ddeunyddiau a chyflenwadau. |
| £10,000 | Denu incwm ychwanegol o ffynonellau newydd. | Dim - darparu gwasanaethau i sefydliad allanol o'r newydd. |
| £4,000 | Lleihad gwariant ar gyflogau o fewn y Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer. | Dim - yr arbediad yma yn deillio o'r symud cynyddol i ddefnyddio darpariaeth hunanwasanaeth ochr yn ochr ag ail-strwythuro o fewn trefniadau rheoli'r Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer yn ddiweddar. |
| **£61,340** | **Cyfanswm** | |

**Cyllid**

| | | |
|---|---|---|
| £14,000 | Chwyddiant - Amrywiol - peidio ychwanegu chwyddiant am 2020/21 ar rai cyllidebau heblaw am staff. | Dim effaith ar drigolion Gwynedd - gall yr Adran barhau i gyflawni ei swyddogaeth tra'n peidio rhoi chwyddiant ar rai penawdau cyllideb. |
| £14,000 | Cyfrifeg/Rheoli - denu incwm ychwanegol drwy gytundebau o'r newydd. | Dim effaith ar drigolion Gwynedd - daw'r incwm o ddarparu gwasanaethau i sefydliad allanol o'r newydd. |

**ATODIAD 3a**

| Swm £ | Pennawd Cyllideb a Chynigion | Effaith ar Drigolion |
|---|---|---|
| £11,000 | Technoleg Gwybodaeth - denu incwm ychwanegol, cyfuniad o gytundebau newydd a gweithgareddau ychwanegol. | Dim effaith ar drigolion Gwynedd - derbynnir incwm gan gwsmer allanol am lefel uwch o ddarpariaeth. |
| £12,000 | Trethi Annomestig - denu incwm ychwanegol o ffi gweinyddu cynllun Ardal Gwella Busnes (AGB). | Dim effaith ar drigolion Gwynedd - mae'r incwm 'newydd' yma'n dod o gytundeb sydd bellach yn ddibynadwy. |
| £7,930 | Moderneiddio - lleihau nifer o gyllidebau drwy weithredu ffyrdd newydd o weithio ar draws yr adran. | Dim effaith ar drigolion Gwynedd - wrth ddefnyddio gwasanaethau ar-lein, rydym am wario llai ar bostio, rhybuddion statudol ac ar wasanaethau arbenigol. |
| **£58,930** | **Cyfanswm** | |

**Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol**

| | | |
|---|---|---|
| £5,000 | Hepgor chwyddiant ar rai penawdau cyllidebol y Tîm Arweinyddiaeth, Cyfreithiol, Cofrestru Etholwyr a'r Crwner. | Dim effaith amlwg - dylid medru dygymod gyda'r cyllidebau dan sylw ar eu lefelau presennol. |
| £3,000 | Tîm Arweinyddiaeth a Swyddog Monitro - Lleihau cyllideb postio, offer a dodrefn. | Dim - yn sgil symud i fwy o ddefnydd technoleg rydym yn gwario llai ar y gyllideb postio a gellir ei leihau'n sylweddol. |
| £3,390 | Tîm Arweinyddiaeth - Lleihau cyllideb cynadleddau. | Dim - yn sgil y bwriad i gadw un swydd Cyfarwyddwr yn wag bydd yna lai o allu i fynd i gyfarfodydd ar ran y Cyngor ac felly llai o wariant cefnogol yn gwneud hynny. |
| £2,500 | Darfod achrediad Cyfreithiol Lexcel. | Dim - bwriedir hepgor achrediad allanol Lexcel gyda threfniadau rheoli swyddfa yn parhau i gael eu cynnal yn unol â'r un egwyddorion. |
| £2,910 | Cyfreithiol - Incwm. | Dim - dros y blynyddoedd a fu, er mwyn cwrdd â thargedau incwm bu'r Uned Gyfreithiol yn gwneud gwaith allanol er mwyn denu incwm. Dengys lefelau presennol ein bod yn cynhyrchu mwy na ddisgwyliwyd yn wreiddiol. |
| **£16,800** | **Cyfanswm** | |

**ATODIAD 3a**

| Swm £ | Pennawd Cyllideb a Chynigion | Effaith ar Drigolion |
|---|---|---|

**Amgylchedd**

| | | |
|---|---|---|
| £9,580 | Gweithiau - rhewi chwyddiant. | Ni ragwelir effaith ar drigolion Gwynedd wrth rewi chwyddiant am un flwyddyn yn unig gan fod yn swm eithaf bychain. |
| £4,000 | Rheolaeth Adeiladu - ffioedd darparu cyngor ymlaen llaw. | Nid yw'r ffioedd yma'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd, ond mae trefn debyg mewn bodolaeth yn y Gwasanaeth Cynllunio. Mae'r adborth gan y sawl sy'n derbyn y sylwadau yn gadarnhaol dros ben, gyda thrigolion yn teimlo eu bod yn cael cyngor llawer mwy defnyddiol a'i fod yn werth am arian. |
| £5,000 | Lleihau cyllideb Hyfforddiant. | Ni ragwelir effaith sylweddol yma ar drigolion Gwynedd. Fe fydd angen i'r Adran fod yn fwy penodol ar ba hyfforddiant sydd wirioneddol ei angen i lenwi bylchau mewn gwybodaeth ac i fod yn cwrdd â gofynion newydd ynghyd a datblygu staff. |
| £15,000 | Gwaith stryd - torri hanner swydd. | Gall colli hanner swydd arwain at ardrawiad sylweddol, ond rhagwelir bod posib lleihau'r effaith yn sylweddol drwy well defnydd o dechnoleg a chydweithio agosach gyda'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol. |
| £2,000 | Deunyddiau swyddfa. | Mae'r holl fesurau arbedion yma yn ymwneud â phrynu'n rhatach, prynu llai, neu beidio â phrynu o gwbl drwy wneud gwell defnydd o dechnoleg (e.e. defnyddio llai o bapur, argraffu llai). Mae'r adran mewn gwirionedd yn gor-gyflawni o dan y pennawd 'Rheolaeth Categori' yn eu rhestr arbedion Adrannol. Ni ragwelir effaith ar drigolion Gwynedd. |
| £8,000 | Argraffu/llungopïo. | |
| £5,000 | Gwasanaeth proffesiynol/technegol. | |
| £7,420 | Tanysgrifiadau. | |
| £25,000 | Offer a chelfi. | |
| £15,560 | Arbedion trwy brynu'n rhatach (meddalwedd). | |
| **£96,560** | **Cyfanswm** | |

**ATODIAD 3a**

| Swm £ | Pennawd Cyllideb a Chynigion | Effaith ar Drigolion |
|---|---|---|

**Priffyrdd a Bwrdeistrefol**

| | | |
|---|---|---|
| £15,000 | Lleihad yn nefnydd trydan Twnnel Caernarfon. | Dim effaith ar drigolion - Lleihad yn y costau yn dilyn newid i'r system reoli a goleuo yn cynnwys cyflwyno lampau LED. |
| £3,000 | Nwy yr Amlosgfa (defnydd). | Dim effaith ar drigolion - Defnydd o'r ynni wedi lleihau yn dilyn gwell rheolaeth/systemau newydd. |
| £80,000 | Côst ymdrin â gwastraff masnachol. | Dim effaith ar drigolion - Erbyn hyn rydym yn trin ein gwastraff gweddilliol yn safle Parc Adfer sydd yn safle llosgi ar y cyd gydag Awdurdodau'r Gogledd. Mae strwythur y ffi wedi sicrhau lleihad yn ein costau. |
| £46,250 | Chwyddiant. | Dim effaith ar drigolion - Gweithio o fewn y gyllideb gyfredol 2019/20 a gweithio'n agos gyda'r Tîm Categori Priffyrdd a Bwrdesitrefol. |
| £20,000 | Chwyddiant - deunyddiau cyffredinol. | Dim effaith ar drigolion - Addasu Cyllidebau - gweithio o fewn cyllidebau cyfredol 2019/20, gweithio mwy effeithlon ac yn agosach gyda'r Tîm Categori Priffyrdd a Bwrdeistrefol. |
| £7,000 | Ar-ddyletswydd Bwrdeistrefol. | Dim effaith ar drigolion - Sefydlu un drefn ar-ddyletswydd ar draws yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol. |
| £12,940 | Gwariant amrywiol fflyd. | Dim effaith ar drigolion - Mae gwaith diweddar y Tîm Categori wedi adnabod cyfleoedd o weithio yn fwy effeithlon. |
| £50,000 | Ail-strwythuro'r Adran. | Dim effaith ar drigolion - Cyflwyno strwythur newydd o fewn yr Adran er sicrhau gwell effeithlonrwydd/cydweithio ar draws y gwasanaethau. |

| Swm £ | Pennawd Cyllideb a Chynigion | Effaith ar Drigolion |
|---|---|---|
| £35,000 | Cynllun Cau Cilgwyn. | Dim effaith ar drigolion - Mae Cynllun Cau yn ei le ar gyfer safle Cilgwyn sydd wedi bod a gofynion eithaf caeth mewn perthynas â gwaith monitro. Mae'r safle bellach wedi cau ers peth amser ac mae'r Adran wedi agor trafodaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar leihad gofynion y Cynllun Cau sydd wedi ei gytuno mewn egwyddor. Wrth weld y cynllun newydd yn ei le bydd gofyn am waith monitro misol yn newid i un pob chwarter sydd am leihau ar yr holl waith profi. |
| £12,000 | Coed - dim didoli. | Dim effaith ar drigolion - Yn flaenorol roedd rhaid didoli rhai mathau o goed er sicrhau ein bod yn gallu cyfrif y gwastraff tuag at ffigyrau ailgylchu. Erbyn hyn, gan weld Parc Adfer yn weithredol ac ein bod yn gallu cyfrif 'bottom ash' nid yw'n ofynnol didoli'r coed. |
| **£281,190** | **Cyfanswm** | |

**Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)**

| Swm £ | Pennawd Cyllideb a Chynigion | Effaith ar Drigolion |
|---|---|---|
| £7,260 | Trwy wneud addasiadau i wariant a chyllidebau YGC mae effaith net o leihad yn y gwariant. Mae hyn yn rhannol wedi ei gyflawni trwy dorri'n ôl ar aelodaeth YGC o sefydliadau fel NSAN (National Skills Academy Nuclear) a hefyd dorri ar wariant ar gylchgronau a thebyg, gan fod y rhain bellach ar gael trwy ffurf electronig neu ar y we. | Dim effaith ar drigolion. |
| £22,410 | Cynyddu adnoddau o fewn Unedau YGC sy'n galluogi'r Adran gynyddu incwm. Mae'r Ffurflenni Newid Strwythur diweddar wedi cynyddu'r capasiti o fewn meysydd Ymgynghoriaeth Costau ac Ecoleg. | Dim effaith ar drigolion. |
| **£29,670** | **Cyfanswm** | |

| | |
|---|---|
| **£1,062,320** | **CYFANSWM** |